Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

07/09/26

Annwyl Rieni,

Wrth i ni baratoi ar gyfer blwyddyn ysgol newydd, hoffem eich annog i gofrestru eich plentyn ar gyfer **Aelodaeth yr Urdd Gobaith Cymru 2026-27**

Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd unigryw i blant Cymru gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous, gan gynnwys:

- Cystadlaethau celf, cerddoriaeth, dawns a drama
- Digwyddiadau chwaraeon lleol a chenedlaethol
- Clwbiau ar ôl ysgol a gweithgareddau cymdeithasol
- Teithiau preswyl i ganolfannau fel Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd

Mae aelodaeth yn hanfodol er mwyn i'ch plentyn gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, ac mae'n ffordd wych o ddatblygu hyder, sgiliau cymdeithasol a balchder yn eu Cymreictod.

**Cost Aelodaeth:**

- **£13.50** y plentyn am y flwyddyn ysgol 2026-27 (Neu £30 am 'docyn teulu'- tri o blant)
- ***£1** yn unig i'r rhai hynny sy'n derbyn cefnogaeth ariannol (gweler y wefan am mwy o wybodaeth)

**Sut i Gofrestru:**

Gallwch gofrestru'n hawdd ar-lein drwy wefan yr Urdd: [Ymuno - urdd.cymru]

Sylwch: Mae'n bwysig cofrestru cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn gymwys i gymryd rhan mewn cystadlaethau ac ymweliadau ysgol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gymorth gyda'r broses gofrestru, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,

*Dyfan Phillips*

Pennaeth
Ysgol Pen Barras
RHUTHUN

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*07/09/26*

*Dear Parents,*

*As we prepare for the new school year, we would like to encourage you to register your child for* ***Urdd Gobaith Cymru Membership for 2026-27***

*The Urdd offers unique opportunities for children in Wales to take part in a wide range of exciting activities, including:*

- *Competitions in art, music, dance and drama*
- *Local and national sporting events*
- *After-school clubs and social activities*
- *Residential trips to centres such as Llangrannog, Glan-llyn and Cardiff*

*Membership is essential for your child to participate in these activities, and it's a fantastic way to build confidence, social skills and pride in their Welsh identity.*

***Membership Cost:***

- ***£13.50*** *per child for the 2026–27 school year (or £30 for a Family Ticket- 3 siblings)*
- ***£1 membership*** *for those families who receive Income support, child tax credit*
  ***(****Please see website for further details****)***

***How to Register:***

*You can easily register online via the Urdd website:* [Join - urdd.cymru]

*Please note: It's important to register as soon as possible to ensure your child is eligible to take part in competitions and school visits.*

*If you have any questions or need help with the registration process, please feel free to contact the school.*

*Thank you for your continued support.*

*Yours sincerely,*

*Dyfan Phillips*
*Headteacher*
*Ysgol Pen Barras*
*Ruthin*